CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 918 (Cy. 106)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae Rheoliadau 1992 yn rheoleiddio'r telerau y mae gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn cael eu darparu odanynt o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae **Rheoliad 2** yn diwygio Atodlen 4 i Reoliadau 1992 er mwyn cynyddu (o £260 i £375) y swm a bennir ynddi fel cost uchaf, neu gost debygol, y gofal a'r driniaeth y caiff deintydd ymgymryd â hwy heb ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 918 (W. 106)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations further amend the National Health Service (General Dental Services) Regulations 1992 ("the 1992 Regulations").

The 1992 Regulations regulate the terms on which general dental services are provided under the National Health Service Act 1977.

**Regulation 2** amends Schedule 4 to the 1992 Regulations to increase (from £260 to £375) the amount specified therein as the maximum cost, or likely cost, of care and treatment which a dentist may undertake without seeking the prior approval of the Dental Practice Board.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 918 (Cy. 106)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *28 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 15(1), 35(1), 36(1) a (3) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(a) 1977 p.49; gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 5(2) o Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48) ("Deddf 1984"); gan Ddeddf 1990, adran 12(1) a chan Ddeddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995"), adran 2(1) ac Atodlen 1, paragraff 6(e).

Cafodd adran 35(1) ei hamnewid gan O.S. 1985/39, erthygl 7(9), a'i diwygio gan Ddeddf 1995, Atodlen 1, paragraff 24.

Cafodd adran 36(1) ei rhifo felly gan Ddeddf 1984, Atodlen 3, paragraff 5(1) a'i diwygio gan O.S. 1981/432, erthygl 3(3)(a); gan O.S. 1985/39, erthygl 7(10); gan adran 25 o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49) ac Atodlen 2, paragraff 4 iddi, gan Ddeddf 1990, adran 24(2) a chan Deddf 1995, adran 2(1) ac Atodlen 1, paragraff 25(a). Mewnosodwyd adran 36(3) gan Ddeddf 1990, adran 24(3).

Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 37(6).

Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 15(1), 35(1), 36(1) a (3) a 126(4) o Ddeddf 1977 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 918 (W. 106)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *28 March 2002* |
| *Coming into force* | *1st April 2002* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 15(1), 35(1), 36(1) and (3) and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**a**) hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement, interpretation and application**

**1.**-(1) These regulations may be cited as the National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 1st April 2002.

(a) 1977 c.49; see section 128(1), as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Section 15(1) was amended by section 5(2) of the Health and Social Security Act 1984 (c.48) ("the 1984 Act"); by the 1990 Act, section 12(1) and by the Health Authorities Act 1995 (c.17) ("the 1995 Act"), section 2(1) and Schedule 1, paragraph 6(e).

Section 35(1) was substituted by S.I.1985/39, article 7(9), and amended by the 1995 Act, Schedule 1, paragraph 24.

Section 36(1) was so numbered by the 1984 Act, Schedule 3, paragraph 5(1) and amended by S.I.1981/432, article 3(3)(a); by S.I.1985/39, article 7(10); by section 25 of and Schedule 2, paragraph 4 to the Health and Medicines Act 1988 (c.49), by the 1990 Act, section 24(2) and by the 1995 Act , section 2(1) and Schedule 1, paragraph 25(a). Section 36(3) was inserted by the 1990 Act, section 24(3).

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2); and by the Health Act 1999 (c.8) ("the 1999 Act"), Schedule 4, paragraph 37(6).

The functions of the Secretary of State under sections 15(1), 35(1), 36(1) and (3) and 126(4) of the 1977 Act are transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, as amended by section 66(5) of the 1999 Act.

(2) Yn y rheoliadau hyn -

ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations"*) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992(**a**);

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.

**Diwygio Atodlen 4 i Reoliadau 1992**

**2**. Yn Rhan II o Atodlen 4 i Reoliadau 1992 (triniaeth â chymeradwyaeth ymlaen llaw), ym mharagraffau 1 a 2, yn lle "£260" rhowch "£375".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

Dyddiad 28 Mawrth 2002

(2) In these regulations-

"the 1992 Regulations" ("*Rheoliadau 1992*") means the National Health Service (General Dental Services) Regulations 1992(**a**);

(3) These Regulations shall apply to Wales only.

**Amendment of Schedule 4 to the 1992 Regulations**

**2**. In Part II of Schedule 4 to the 1992 Regulations (prior approval treatment), in each of paragraphs 1 and 2, for "£260" substitute "£375".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

Date 28 March 2002

*Rhodri Morgan*

Y Prif Ysgrifennydd

The First Secretary

(a) O.S. 1992/661; O.S. 1992/1509 a 2001/1359 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(b) 1998 (p.38).

(a) S.I.1992/661; relevant amending instruments are S.I.1992/1509 and 2001/1359.

(b) 1998 (c.38)

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2002 Rhif 918 (Cy. 106)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2002 No. 918 (W. 106)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Dental Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2002

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090458-3

9 780110 904580

**£1.75**

W/0066/9/4/02 ON